Cydnabyddir mewnfudo, prynu ail dai a gwerthiant Hawl i Brynu gan Gynulliad Cymru (2003). Mae Shucksmith (2001) yn amcangyfrif bod 40% o breswylwyr tai newydd y D.U. mewn ardaloedd gwledig ddim yn gallu prynu ty yn y wlad.

Mae Shucksmith hefyd yn cydnabod bod yna agweddau eraill o fyw yn y wlad a all waethygu digartrefedd, e.e. mae cyflogau isel mewn llawer o swyddi wedi'u lleoli yn y wlad yn gallu arwain pobl at ddigartrefedd. Yn ychwanegol at hyn ceir diffyg neu brinder gwasanaethau ataliol mewn digartrefedd yn yr ardaloedd gwledig, megis prosiectau cyffuriau ac alcohol, trais yn y cartref, a phobl ifainc. Ar ben hynny, gall pobl sydd heb eu trafndiaeth eu hunain deimlo'n arbennig o unig yn yr ardaloedd gwledig.

Disgrifir digartrefedd yn aml iawn fel rhywbeth 'anweledig'. Y mae llai o bobl gwledig yn cysgu allan, ac y mae awdurdodau lleol gwledig yn debycach o wadu bod problem ddigartrefedd. Awgryma Cloke et al. (2002) bod yna grêd gyffredinol nad yw'r problemau hyn yn bod oherwydd y gymuned, lle mae pobl yn 'adnabod ac yn helpu ei gilydd.'

Awgryma Cloke et al. (2002) bod mwy o stigma i bobl ddigartref yn yr ardaloedd gwledig. Ychydig o gydymdeimlad tuag at 'bobl o'r tu allan' neu bobl sy'n pasio trwy'r ardal allai fod. Tuedda pobl sydd â thrafferthion cartrefu guddio eu problemau, gan y byddai eu datguddio nhw yn dangos anallu i ymdopio.

## Cysgu allan

Darganfu Clarke et al. (2002) fod yna lai o gysgu allan a mwy o symud o gwmpas tenantiaethau llac mewn ardaloedd gwledig e.e. cysgu ar lawr ty ffrindiau. Ar wahân i un arolwg byr (Bevan 1999), nid oes arolwg o gysgu allan wedi bod yn ardaloedd gwledig Cymru hyd heddiw. Tuedda astudiaethau o ddigartrefedd gwledig yn y D.U. i beidio sôn llawer am bobl sy'n cysgu allan (Cloke et al. 2002; Button 1992; Webb 1994), a maent yn dal yn grwp arbennig o unig, heb lawer o wybodaeth amdanynt.

## Y cefndir i'r ymchwil

Y mae'r Wallich Clifford Community yn elusen gofrestrdedig, wedi'i hen sefydlu, sydd wedi bod yn darparu gwasanaethau i bobl ddigartref a chlwyfadwy am bron i ddeng mlynedd ar hugain. Wedi'i sylfaenu'n drefol yn draddodiadol, mae'r elusen wedi ymledu'n raddol i fwy o ardaloedd gwledig, gan gynnwys Caerfyrddin, Powys a Cheredigion. Y mae gwasanaethau yn yr ardaloedd Awdurdodau Lleol hyn yn llwyddiannus wrth roi cymorth i bobl sy'n byw mewn tenantiaethau llac a'r rhai sydd ar risg o fod yn ddigartref.

Gwelodd yr elusen fwllch arwyddocâol yn yr ymchwil sydd ar gael sy'n ymchwilio'n fanwl i faint a natur y cysgu allan yn y siroedd gwledig hyn, a chyda chyllido o'r Lloyds TSB Foundation for England and Wales, roedd yn gallu cychwyn ar brosiect ymchwil dri mis, gyda'r amcanion canlynol:

1. I gasglu tystiolaeth am yr angen i gael prosiectau yn siroedd Ceredigion a Chaerfyrddin. ( Ymestynnwyd hyn i Bowys a Phenfro).

2. I ddarparu gwasanaeth i'r bobl sy'n byw bywyd wedi'i sylfaenu ar y stryd.
3. I gasglu gwybodaeth am anghenion y grwp cleient, a chydweithio gyda'r Awdurdodau Lleol a darparwyr gwasanaeth i ddatblygu gwasanaethau sy'n cwrdd â'r anghenion a nodir.

Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi'r dystiolaeth o'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod cyfnod yr ymchwil, ac yn edrych yn fanwl ar batrwm y digartrefedd yn yr ardaloedd gwledig hyn. Y mae astudiaethau achosion unigolion, sydd wedi'u casglu trwy wybodaeth o lygad y ffynnon gan 130 o bobl ddigartref, yn amlygu'r pynciau penodol a gododd dro ar ôl tro.

## Model Prosiect R.S.I.T./T.Y.C.A.

Dros y ddeng mlynedd ddiwethaf mae'r Wallich Clifford Community wedi darparu gwasanaeth i gysgwyr allan. Fel y ' Breakfast Run' yr adnabuwyd y gwasanaeth hwn gynt, a bellach fe'i darperir ym Mhen-y-bont-ar Ogwr, Caerdydd, ac Abertawe, ac yn ddiweddar, newidiwyd y teitl i'r Rough Sleepers Intervention Team ( R.S.I.T.) / Tîm Ymyrraeth Cysgu Allan (TYCA), er mwyn adlewyrchu prif flaenoriaeth y prosiect – i gynorthwyo'r cysgwyr allan i symud i ffwrdd o'u ffordd o fyw presennol, ac i ddarparu mynediad i wasanaethau megis gofal iechyd a chynhaliadaeth alcohol /cyffuriau. Yn groes i rai canfyddiadau o'r gwasanaethau, nid yw'n dal ymlaen â'r broblem drwy gefnogi a chynnal y ffordd yma o fyw, ond yn ceisio symud pobl ymlaen i lety mwy parhaol. Wrth gwrs, yn ogystal â chynnig cymorth hir dymor, mae'r RSIT /TYCA yn paratoi cymorth dyniaethol hanfodol trwy ddarparu brecwast poeth a sachau cysgu/ blancedi. Y mae'r tîmau i gyd yn gweithredu o leiaf bum niwrnod yr wythnos, ac yng Nghaerdydd mae'r RSIT/TYCA yn darparu gwasanaeth llawn 365 diwrnod y flwyddyn.

Ystyrir cysgwyr allan, yn gyffredinol, fel y grwpiau mwyaf ar wahân a thu allan i gymdeithas o fewn sbectrwm y digartref. Gan eu bod, yn aml, yn gyndyn i gyfathrebu ag asiantaethau, ac yr un mor ddrwgdybus o'u bwriadau, gall fod yn anodd delio â chysgwyr allan. Mae model y RSIT /TYCA, fodd bynnag, wedi bod yn llwyddiannus wrth sefydlu perthynas o ymddiriedaeth gydag hyd yn oed y digartref- ar- y- stryd hir dymor, ac yn dal yn ffynhonnell ddifeiriadol, ddibynnol a chyson, o gefnogaeth. Bellach mae pob RSIT/TYCA yn cwrdd yn rheolaidd â channoedd o gysgwyr allan bob blwyddyn.

Oherwydd y cyfyngiadau amser ar gyfnod yr ymchwil, sef, 12 wythnos, roedd sefydlu RSIT/TYCA yn fodel amlwg ar gyfer ymchwil, gan y byddai'n hwyluso mynediad hawdd i'r grwp pwnc ac yn codi'n gyflym y berthynas angenrheidiol a fyddai'n galluogi'r tîm i gasglu gwybodaeth.

## Ymchwil : Grwp Targed

Y bobl hynny sy'n cysgu allan dros nos yn rheolaidd yw grwp cleient craidd unrhyw RSIT/TYCA. Y rhain yw'r bobl ddigartref fwyaf clwyfadwy sy'n ei chael hi'n fwyaf anodd i gael gafael ar y gefnogaeth briodol. Fodd bynnag, y mae, hefyd, nifer fawr o bobl ddigartref 'guddiedig' sydd, efallai, yn cysgu allan weithiau ac yn treulio'r rhan fawyaf o'r nosweithiau yn 'syrffio ar y sofffa' – yn aros gyda ffrindiau, teulu, neu unrhyw un sydd ag ychydig o le ar y llawr. Fel y datblygai'r astudiaeth, yn yr un modd, bu'n rhaid i'r tîm edrych ar nifer o wahanol fathau o ddigartrefedd. Prif bwrpas y prosiect ymchwil, yn dal, oedd yr ymchwiliad i'r lefelau a natur y cysgu allan. Fodd bynnag, i roi darlun mor llawn a chywir â phosibl, roedd rhaid edrych ar fathau eraill o ddigartrefedd a gyfrannai'n aml i, a rhannu nodweddion â digartrefedd. Er enghraifft, gwelwyd bod canran uchel o bobl a gâi eu cartrefu mewn llety gwely a brecwast yn yr ardaloedd gwledig hyn, a bod llawer o'r rhain wedi cael profiad o gysgu allan.

## Datblygiad Holiadur

I gasglu gwybodaeth berthnasol, datblygwyd holiadur a gwmpasai bedwar prif faes pwnc :

1. Manylion personol : Rhyw, oed, lle geni, a.y.y.b.
2. Sefyllfa ddigartref bresennol : Ble maen nhw'n aros, am faint maen nhw wedi bod yn ddigartref, a.y.y.b.
3. Digartrefedd yn y gorffennol ; y rhesymau, ble yr arhosent, problemau, cysylltiad asiantaeth, a.y.y.b.
4. Dewis i'r dyfodol : Ble yr hoffent fyw, pa swydd yr hoffent ei wneud, a.y.y.b.

Gwnaethpwyd portread ysgrifenedig, neu grynhoad o stori'r unigolyn gan y cyfwelydd, a roddodd unrhyw wybodaeth ychwanegol na fyddai'n ffitio'r cwestiynau penodedig.

Datblygwyd yr holiadur mewn partneriaeth â'r Athro Susan Hutson, ymchwilydd profiadol â diddordeb arbennig mewn digartrefedd, ac aelodau staff Wallich Clifford Community, sydd wedi gweithio'n helaeth gyda'r grwp cleient. Cyn ei osod ar waith, treialwyd holiadur peilot yn un o'n RSIT/TYCA ym Mhen-y-bont-ar-Ogwr, lle y gwelwyd ei fod yn llwyddiannus wrth dynnu allan y wybodaeth ofynnol.

## Cwestiynau Moesegol

O safbwynt cleient, blaenoriaeth gyntaf y RSIT/TYCA gwledig oedd darparu gwasanaeth – i gynnig brecwast poeth a chyngor i gysgwyr allan. Bu'n rhaid ei wneud yn glir i bob unigolyn digartref mai prosiect dros dro, a fyddai'n para am 12 wythnos, oedd y ddarpariaeth



frecwast. Chwalai hyn unrhyw obeithion ffals y byddai'n wasanaeth estynedig neu barhaol. Fodd bynnag, mi wnaeth dynnu sylw at y ffaith nad oedd y fath wasanaeth ar gael yn yr ardaloedd dan sylw.

Yr oedd pob un cleient a ddymunai fod yn rhan o'r ymchwil yn llawn ymwybodol o'i amcan a'i fod yn ofynnol iddo/i arwyddo'r holiadur, gan roi caniatad i gofnodi'r cynnwys. Newidiwyd yr enwau yn yr adroddiad hwn er mwyn diogelu preifatrwydd a chyfrinachedd pawb a atebodd yr holiadur, a dim ond â chaniatad ysgrifenedig y cynhwyswyd unrhyw luniau.

## Casglu Data

Yn ystod yr wythnosau yn arwain at gyfnod yr ymchwil maes, rhoddwyd gwybod i'r asiantaethau lleol am y prosiect, a gofynnwyd iddynt gyfeirio unrhyw gleientau addas at y gwasanaeth. Hefyd, marchnatwyd y RSIT/TYCA yn uniongyrchol i bobl ddigartref leol drwy ffleiers a phosteri, gan eu hannog i gysylltu â'r tîm.

Rhychwantai'r RSIT/TYCA y 4 sir gwledig – Caerfyrddin, Ceredigion, Penfro a Phowys. Gweithiai'r tîm o 4 weithiwr prosiect mewn parau i gasglu data trwy ddosrannu'r holiadur.

Llanwyd yr holiadur mewn lle ac ar adeg pan deimlai'r cleient fwyaf cyfforddus – naill ai y peth cyntaf yn y bore wrth gael brecwast, neu, os oedd yn well ganddynt, yn swyddfa'r tîm yn hwyrach yn y dydd. Llanwyd y rhan fwyaf o'r holiaduron gan y gweithwyr prosiect, er y dymunai rhai cywelyddion eu llenwi eu hunain. Cyn belled â phosibl, roedd yr holl nodiadau a wnaed gan y gweithwyr prosiect air am air.

Er bod nifer o atgyfeiriadau wedi cael eu gwneud gan asiantaethau eraill, a swyddfeydd rhanbarthol Wallich Clifford Community, y ffordd fwyaf effeithiol o gasglu cyfranwyr oedd ar lafar. Yn fuan iawn deuai'r tîm yn gyfarwydd â chysgwyr allan rheolaidd trwy'r dull yma, a chael hyd i rwydwaith o bobl ddigartref debyg i'r rhain yn y trefi a'r dinasoedd. Er enghraifft, byddai gwerthwyr y Big Issue yn dweud wrth weithwyr am sgwat y gwyddent amdani, neu byddai'r dyn a gysgai allan ar y Stryd Fawr yn adnabod cwpwl ifanc a gysgai mewn ffermdy gwag.

Y mae pob datganiad ( canrannau, a.y.y.b.) yn cyfeirio at nifer y bobl a atebodd bob cwestiwn priodol. Ar gyfartaledd, 77% o gwestiynau a atebwyd, gyda'r mwyafrif o gwestiynau yn cyrraedd dros 90%.

## Grwp Demograffig

Yn ôl y disgwyl, roedd mwy o gyfweledigion gwryw na benyw, sef 73% a 27%. Yn nodweddiadol, roedd bron i hanner yr holl atebwyr rhwng 20 a 29 (45%). Roedd nifer arwyddocaol o dan 19 (24%), a achosai bryder i un cyfwelydd:

Mae Mark yn ei 40au ac wedi bod yn ddigartref; mae bellach yn rhentu ty yn breifat, ac yn caniatu i sgwatwyr feddiannu'r ystafelloedd eraill ac yn cyfrannu tuag at y biliau a'r rhent. Mynegodd ei bryder am y nifer o bobl ddigartref yng Nghaerfyrddin a'r risgiau diogelwch y maent yn agored iddynt. Daeth y tîm o hyd i un plentyn a oedd dim ond yn 13 oed. Problemau gartref a pherthynas gythryblus â'i fam arweiniodd at gysgu allan am 2 i 3 noson ar y tro.

Rhoddodd dros 40% o'r bobl Loegr fel man eu geni, o'i gymharu â 34% o ardaloedd lleol a 21% o ardaloedd trefol yng Nghymru, ond, fodd bynnag, nid yw'r ymchwil yma yn dweud wrthym pa mor hir mae'r bobl wedi byw yn lleol, gan ddod i'r ardal, o bosib, yn blant neu'n oedolion ifainc, neu o ganlyniad i gysylltiadau teuluol lleol. Fe wnaeth yr ymchwil ddangos bod dros 25% o'r atebwyr wedi seilio eu dewis o leoliad ar rwydweithiau o ffrindiau a theulu a oedd yn bodoli yn yr ardal honno.

## Stigma

Y mae astudiaethau eraill yn awgrymu y bydd pobl, yn aml, yn osgoi eu labelu eu hunain yn 'ddigartref', ond, fodd bynnag, yn yr arolwg yma, pan ofynnwyd i bobl a fyddent yn eu hystyried eu hunain yn ddigartref, atebodd 81% ohonynt 'Byddwn'. Hwyrach y byddai pobl yn fwy bodlon eu disgrifio'u hunain yn ddigartref i weithwyr roeddynt hwy yn synhwyro'u bod nhw'n gydymdeimladol, gan fod nifer o astudiaethau achos yn dangos ymwybyddiaeth o'r stigma a'r cau allan a brofir gan bobl ddigartref.

Y mae Mary, gwerthwr y Big Issue, sydd yn ei 30au, yn gofalu am ferch 12 oed, Katy, ond ni wnaiff werthu'r cylchgrawn yn y dref lle mae Katy yn mynd i'r ysgol rhag ofn iddi gael ei bwlio.

Gadawodd Donna, merch yn ei harddegau, ei chartref ar ôl dadlau gyda'i mam. Mae Donna yn disgwyl cael clywed oddi wrth yr Adran Dai, ond ar hyn o bryd, yn cysgu allan. Gymaint yw ei hambaras ei bod hi'n cysgu wrth ddrysau'r siopau, fel nad yw hi'n gallu ei wneud ddim mwy os nad yw hi'n feddw, a byddai'n ei gorchuddio'i hun â chardfwrdd er mwyn aros yn anhysbys.

Roedd Alice, yn ei 40au, yn byw mewn ty capel nes iddi gael ei hel allan pan oedd y Ficar newydd angen y ty. A hithau'n methu â chael rhywbeth arall fforddiadwy, dywed Alice ei bod hi mewn stâd o embaras ac mewn trallod wrth ei chael ei hun yn ddigartref, ac â chywilydd arni hi ofyn i gyfeillion am gymorth.

Mae gwahaniaethu yn erbyn pobl ddigartref i'w weld, hefyd, ym mhrofiadau pobl o gamdrin geiriol a chorfforol, hyd yn oed mewn ardaloedd gwledig a ystyried yn aml yn 'ddiogelach' na threfi neu ddinasoedd gan y rhai a roddai'r wybodaeth. Cwyna un dyn, Chris, iddo brofi camdrin hiliol yn rheolaidd, ac aeth gweithwyr prosiect gyda fe i'r ysbyty wedi iddo gael ei roi ar dân wrth geisio cysgu ar fainc mewn parc.

## Trefol v. Gwledig

Arhosai 73% o bobl yn Aberystwyth neu Lanelli, mewn cyferbyniad ag ardaloedd gwledig anghysbell, a datganodd 45% o'r atebwyr fod yn well ganddynt brofi digartrefedd yn y dinasoedd, o'i gymharu â 38% dros ddigartrefedd yng nghefn gwlad. Y prif reswm a roddwyd dros y dewis hwn oedd bod ystod gwell o wasanaethau wedi'u datblygu ac yn haws eu cyrraedd. Fodd bynnag, wrth edrych ar ddyfodol dewisiedig cyfweledigion, datganodd 68% ohonynt ei fod yn well ganddynt gael hyd i gartref mewn lle gwledig, yn debyg i, os nad yn, y lle yr arhosant ar y pryd.

Diogelwch oedd prif reswm dewis 65% o'r atebwyr a ddywedodd fod yn well ganddynt brofi digartrefedd mewn ardal wledig.

Gwelodd Peter gydgysgwr allan yn cael ei gicio'n farw yng nghanol dinas Bryste, a symudodd i gefn gwlad.

Treisiwyd Debbie yn Abertawe, a bellach, nid yw'n gallu ymddiried yn amgylchedd y ddinas.

Golyga natur fwy unig digartrefedd gwledig fod pobl hefyd yn teimlo'n bellach oddi wrth demtasiynau cyffuriau a throedd, ac yn aml iawn yn colli'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y dinasoedd mwy. O'r grwp i gyd dim ond 31% oedd wedi cael profiad o ddigartrefedd yn y wlad.

O'r rhai oedd wedi byw yn y ddau fath o ardaloedd, dywedodd 57% ohonynt fod yn well ganddynt fod yn ddigartref mewn dinas. Darpariaeth a gwasanaeth gwell oedd rheswm y mwyafrif dros hyn. Yr oedd gan lawer o bobl ffrindiau a theuluoedd yno a fyddai'n cynnig cefnogaeth bellach yn ystod cyfnodau digartrefedd.

## Problemau

Y problemau mwyaf cyffredin a brofwyd gan bobl oedd defnydd cyffuriau (37%), materion iechyd meddwl (26%), ac yna gorddefnydd o alcohol (22%). Roedd mwyafrif yr atebwyr a brofai'r pynciau hyn yn profi mwy nag un o'r rhain.

Mae Mike, yn ei 40au ac yn wreiddiol o Lerpwl, wedi bod mewn ac allan o garchar 19 o weithiau ac wedi'i ddal yng nghylchoedd cyffuriau, trosedd, a digartrefedd. Mae wedi colli ei waith, ei deulu, a'i gartref yn sgîl ei ddefnydd o heroin/crack. Mae e'n isel iawn ei ysbryd, a Hepatitis C arno, ac ar hyn o bryd yn byw o dan amgylchiadau budron mewn sgwat gyda chysgwyr allan eraill.

Wrth archwilio faint o amser dreuliwyd yn ddigartref, gwelwyd patrwm o gyfnodau eithaf tymor byr ond ailadroddus o ddigartrefedd, gyda 60% o atebwyr yn cofnodi o leiaf un achos o ddigartrefedd cyn y profiad presennol. Yn eu sefyllfa bresennol, roedd 63% o bobl wedi bod yn ddigartref am lai na blwyddyn, 21% am 1-5 mlynedd. Dim ond 2 o'r atebwyr oedd wedi bod yn ddigartref am dros 20 mlynedd. Roedd nifer o bobl, yn arbennig pobl ifainc, wedi bod yn ddigartref am yr wythnosau diwethaf yn unig, gan fwyaf o ganlyniad i berthynas gyda'u rhieni yn torri lawr.

Roedd yr ardegwyr, Johnny a Helen, wedi bod yn ddigartref am 3 wythnos yn unig. Taflodd Mam Johnny ef allan o'r cartref oherwydd ei ddefnydd o gyffuriau a'i ymddygiad aflonyddus, ac mae Helen newydd adael y system gofal. Mae Johnny wedi sicrhau lle mewn prosiect ieuencid, a Helen yn aros mewn Gwely a Brechwast, er, pan holwyd hi gan y gweithwyr prosiect, roedd hi wedi bod yn cysgu allan.

Mae nifer o bobl ifainc, megis Steven, sydd wedi rhedeg i ffwrdd o gartref sawl gwaith ar ôl iddo gael ei gloi yn y sied lo, yn cyfeirio at gamdrin o fewn cartref y teulu. Noda nifer o'r cyfweledigion broblemau iechyd meddwl, cyffuriau ac alcohol fel ffactor.

Nodwyd hefyd nifer o achosion camdrin merched ifainc gan bartneriaid treisgar; mewn un achos, roedd cleisiau drwg ar yr wyneb yn amlwg i weithwyr prosiect a oedd yn cynnal y cyfweiliad.

O bell ffordd, y rhesymau mwyaf cyffredin dros y digartrefedd oedd torri lawr teuluol (26%) a thorri lawr perthynas (21%). Mewn achosion o ddigartrefedd ailadroddus, gellir olrhain y mwyafrif o achosion (48%)

i'r cyfnod cyntaf o ddigartrefedd a achoswyd am yr un rhesymau. Y mae torri lawr teuluol yn rhannu rhwng achosion lle mae person yn gadael cartref o ganlyniad i ffræ neu gamdrin o ran rhiant, neu lle mae person yn cael ei hel o'r cartref teuluol o ganlyniad i'w ymddygiad drwg, sydd wedi'i gysylltu'n aml iawn â chyffuriau neu ymddygiad troseddol.

Mae Nick yn 29 oed ac wedi bod yn ddigartref ar 2 achlysur oherwydd problemau yn y cartref teuluol. Pan wahanodd ei rieni, bu Nick yn byw gyda'i fam, a oedd yn ei gamdrin yn gorfforol. Wedi iddo adael cartref ei fam, bu'n byw gyda'i dad, ond torrodd y berthynas i lawr o ganlyniad iddo ymhel â chyffuriau. Bu Nick yn byw yn ei fflat ei hun yn Aberteifi tra'n mynd trwy detocs, ond heb y gefnogaeth iawn, nid oedd yn gallu cadw ei denantiaeth.

Dim ond 6% ddisgrifiodd eu digartrefedd fel bwriadol. Mae llawer o rai ifainc yn credu nad oes ond un dewis, sef gadael y cartref teuluol ar ôl dadl arwyddocaol, er bod un arddegwr yn dweud ‘ Os wyt ti'n gallu sortio dy broblemau allan gyda dy deulu, mae'n well gwneud hyn na bod yn ddigartref.’

Nododd 15% o'r atebwyr ddyledion a'r gallu i fforddio llety yn rheswm dros y digartrefedd, a 8% yn nodi profedigaeth. Gall dyled hel yn gyflym gan bobl glwyfadwy, sy'n byw ar eu pen eu hunain, a sy ddim yn gallu trefnu eu harian, neu lenwi'r ffurflen les neu hawliau. Gellir disgwyl yn achos Aberystwyth, gyda'i phoblogaeth uchel o fyfyrwyr, y byddai tai ar rent yn gyfyng. Fodd bynnag, dim ond un person a fynegodd bryder am hyn, gan ddweud bod bondiau a rhenti yn rhy uchel, a bod yn well gan landlordiaid rentu i fyfyrwyr.

Roedd hi'n arwyddocaol, pan mai profedigaeth oedd achos y digartrefedd presennol, nad oedd pynciau achosol eraill ( cyffuriau, alcohol, camdrin a.y.y.b.) yn bresennol tan ar ôl y farwolaeth neu'r cyfnod cychwynnol o ddigartrefedd. Roedd trawma marwolaeth yn y teulu yn amlwg.

Collodd Donna, yn ei thriddegau, ei babi 5 mis yn ôl, ac y mae hi wedi bod mewn ac allan o garchar 6 gwaith. Mae hi'n dweud ei bod hi'n 'mwynhau' defnyddio heroin fel dihangfa.

Roedd Simon yn byw yn Llundain gyda'i bartner ac yn gweithio yn y byd ffasiwn. Ar ôl i'w bartner farw wrth roi genedigaeth, doedd gan Simon ddim teulu na chefnogaeth yn yr ardal, a symudodd i Aberystwyth i fod gyda'i gefnder digartref.

## Llety

Roedd 31% o'r cyfweledigion yn cysgu allan, a 31% rhagor yn aros mewn Gwely a Brechwast, a 23% mewn hostel. Arhosai 16% gyda ffrindiau neu deulu, 11% mewn carafan, a 10% mewn sgwat. Nododd y rhan fwyaf o'r bobl gyfuniad o leoliadau, e.e.mewn Gwely a Brechwast am rywfaint o'r amser, ac aros gyda ffrindiau adegau eraill. Mae hyn yn egluro pam bod y ganran gyfan o'r canlyniadau hyn yn fwy na 100%. Nododd 65% o'r atebwyr iddynt gysgu allan ar ryw adeg.

Mynegodd nifer o bobl a arhosai mewn Gwely a Brechwast eu pryderon am addasrwydd y math yma o lety, a phoenai nifer o'r cyfweledigion ei fod yn annog defnyddio cyffuriau a phynciau eraill. Gwrthododd un cyfweledydd ddefnyddio'r Gwely a Brechwast gynigiwyd iddo oherwydd ei enw drwg. Ymadawodd un arall ar ôl i rywun ymosod arno â thwca. Cafwyd sylwadau, hefyd, am y teimlad o gael eich 'dympio' neu 'anghofio amdano' gan y cyngor lleol, a diffyg dilyn y cysylltiad.

Mynegodd teuluoedd, yn arbennig, eu pryderon am y llety Gwely a Brechwast hwn, gan ddweud bod y profiad o gael eich cau mewn ystafell fach yn achosi stres ac yn anaddas i blant bach.

Mae Jess yn gofalu am ei merch fach, sydd yn dioddef o Liwcemia, a'r symptomau yn gwaethygu oherwydd y diffyg awyru yn eu hystafell.

Nododd teuluoedd, hefyd, y diffyg hyblygrwydd, er enghraifft, amseroedd agor y gegin, a bod heb gyfleusterau coginio nac oergell i gadw llaeth y plant.

Y mae un ardegwr, Jackie, wedi bod yn aros mewn Gwely a Brechwast gyda'i mam, ei thad a'i chwaer hyn am 5 mis. Maent yn cael eu gorfodi i fwyta allan gan nad oes cyfleusterau coginio ganddynt, felly mae'r teulu yn byw ar sgods a sglodion bob nos.

Fodd bynnag, cafwyd rhai sylwadau positif am lety Gwely a Brechwast. Yr oedd nifer eisiau cael mwy o'r math yma o letydros dro, ar yr amod y byddai'r ystafelloedd yn well, ac, yn benodol, y byddent yn addas ar gyfer teuluoedd ac unigolion. Y mae yna, hefyd, astudiaethau achos sy'n dangos sut rôl y mae landlordiaid wedi'u chwarae wrth ddarparu cefnogaeth ychwanegol i'w tenantiaid.

Y mae Richard yn 54oed ac wedi bod yn byw mewn llety Gwely a Brechwast am 15 mlynedd. Y mae ganddo broblemau meddwl difrifol a chafodd ei hel allan o'r cartref teuluol ar ôl cyfnod o gamdrin, ac yna o'i G. a B. cyntaf lle cafodd ei gamdrin. Bellach y mae'n cyfeirio at landlord ei lety presennol fel ei 'warchodwr' sy wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb o warchod ei anghenion cefnogaeth dwys.

Y mae gan Fiona, yn ei harddegau, salwch personoliaeth ac y mae hi'n gwneud nived iddi hi'i hun. Y mae hi wedi cael ei hel allan o dai eraill am ei bod hi'n tueddu i'w rhoi ei hun ar dan, ond y mae ei landlord presennol wedi gosod amodau llym ar ei thenantiaeth, ac y mae hi wedi'u cadw yn llwyddiannus. Y mae Fiona bellach yn aros am le mewn canolfan breswyl arbenigol ac wedi rhagori mewn rygbi gyda'r Prince's Trust.

## Cefnogaeth

Yr oedd 52% o atebwyr wedi mynd at sefydliadau gwirfoddol, o'i gymharu â'r 38% a oedd wedi mynd at wasanaethau tai cyngor. Yr oedd llai na 1% wedi cael cefnogaeth alcohol, a llai na 3% wedi cael cefnogaeth iechyd meddwl, er gwaetha'r ffaith bod nifer fawr o bobl wedi riportio'r problemau hyn. Gallai hyn adlewyrchu bwlch yn y ddarpariaeth wasanaeth ( neu diffyg sylweddoli eu bod nhw'n bod), hunanfodlonrwydd unigolion, neu anallu i gyrraedd gwasanaethau.

Dim ond 5% o'r bobl a aeth at sefydliadau gwirfoddol a ddisgrifiodd eu profiad yn negyddol. Ystyriai'r gweddill y profiad naill ai'n bositif neu'n iawn. Mewn cyferbyniad, ystyriodd y 50% o'r bobl a aeth at y gwasanaethau tai cyngor y profiad yn negyddol.

Amrywiai'r sylwadau amgymorth tai statudol o'r mwyaf diraddiol—'da iddim', 'crachach', a 'poen', i bryderon mwy cyffredinol ei bod hi'n anodd mynd at y gwasanaethau,



a methu cael hyd i lety addas. Roedd nifer o'r bobl heb gyrraedd meini prawf blaenoriaeth anghenion y cyngor, ac ni chynigiwyd unrhyw gefnogaeth iddynt. Mewn rhai achosion, ystyriwyd y staff tai yn gymorthgar ac yn gwrtais, ond yn syml, yn methu eu lleoli mewn unrhyw lety addas – 'Maen nhw'n trio ond yn y diwedd maen nhw yn eich ailgyfeirio.' Y mae un gwr yn nodi gymaint o sioc gafodd wrth weld cyn lleied o gyfleoedd cael tai a gwaith oedd ar gael, ac y mae un arall yn cymharu'r diffyg darpariaeth i'r gwasanaethau 'ardderchog' a welodd yn Northampton. Canmolwyd y sefydliadau gwirfoddol am eu cefnogaeth ymarferol, gan gynnig darpariaeth wahanol i dai, megis, gweithgareddau, triplau diwrnod, cefnogaeth emosiynol, a llenwi ffurflenni lles.

Nododd Darren, yn ei 40au, ei lwyddiant mewn Canolfan Dydd yn Aberhonddu lle roedd wedi gallu gwirfoddoli, ac wedyn, dod yn aelod cyflogedig o' staff.

Fodd bynnag, mynegwyd pryderon am allu unrhyw asiantaeth i gael hyd i atebion hir dymor yn hytrach na thymor byr.

## Gwasanaethau meddygol

Dyweddodd 74% o'r bobl ei bod hi'n hawdd cyrraedd gwasanaethau meddygol. Mae hyn yn wir, mae'n siwr, oherwydd bod rhai, yn enwedig y rhai ifainc, wedi cadw eu meddyg ers oeddynt yn fach. Mae meddyg ar gael gan y lleill ond eu bod yn gorfod teithio'n bell i fanteisio ar eu gwasanaeth. Cododd y prif anawsterau rhag cael gwasanaeth meddyg oherwydd iddynt fod heb gyfeiriad – NFA ( No Fixed Abode' Dim Cartref Parhaol ). Creodd hyn broblemau wrth gofrestru, archebu a chasglu rhagnodau, ac wrth wneud a chadw apwyntiad. Disgrifiodd lleiafrif eu profiadau o ddiodef gwahaniaethu, yn enwedig wrth geisio am ragnodau rheolaidd, pan y gallent fod yn cael eu gweld fel 'blagars'.

Er bod cael doctor yn ennyn ymateb positif, doedd gan 70% o bobl ddim deintydd NHS. Roedd hi'n grêd gyffredinol bod diffyg deintydd NHS yn broblem genedlaethol, a doedd rhai pobl ddim wedi trio cael hyd i ddeintydd, gan ddweud nad oeddynt angen un.

## Cefnogaeth at y dyfodol

Gofynnwyd i'r cyfweledigion pa fath o gefnogaeth yr hoffent ei chael i'w helpu nhw fwyaf yn y dyfodol. Nododd 43% o'r atebwyr ' cefnogaeth gyfnewidiol' ( pan fydd gweithiwr cefnogaeth yn ymweld â'u llety yn rheolaidd ) fel eu dewis gwasanaeth cefnogaeth at y dyfodol, gan fod y rhan fwyaf o bobl yn dymuno cael eu ty neu eu fflat eu hunain (90%) yn hytrach na byw mewn ty â chefnogaeth breswyl (2%). Nododd cyfweledigion ' cefnogaeth gyfnewidiol' fel cymorth gyda chyllido, biliau, a gwaith papur. Disgrifiodd nifer o bobl sefyllfaoedd lle'r oedd diffyg cefnogaeth addas wedi gwneud iddynt fod yn ddigartref yn y gorffennol.

Roedd gan Cerys ei fflat ei hun ond mae hi'n dioddef o ddyslecsia, a chynyddodd ei dyledion rhent pan fethodd hi â chael help wrth lenwi'r ffurflenni budd. Cynghorwyd hi i roi ei thenantiaeth i fyny er mwyn osgoi cael ei hel allan, ac, er ei bod hi'n feichiog, fe'i gorfodwyd i gysgu yn ei char. Yn y diwedd, symudodd at ei mam, ond gadawodd ar ôl i'r babi gael ei eni oherwydd ffræ deuluol. Bellach mae gan Cerys fabi 5 mis oed ac mae hi'n aros mewn G.a B. yn Aberystwyth gyda'i phartner.

Y mae pobl sy'n 'rhoi gorau' i'w tenantiaeth yn eu rhoi eu hunain mewn sefyllfa o gael eu hystyried yn rhai sy'n fwriadol ddigartref. Y mae hel dyledion tai, hefyd, yn creu problemau i unrhyw un sydd yn dymuno ailsefydlu eu tenantiaeth eu hunain, a nododd gweithwyr prosiect fod nifer o bobl yn poeni gymaint am ganlyniadau eu dyledion fel y peidion nhw fynd ar ôl unrhyw wasanaeth gan yr ofnert y byddai hyn yn mynd â nhw yn ôl 'i mewn i'r system'.

Dim ond 7% o'r atebwyr a fyddai'n dewis cefnogaeth gyffuriau ac alcohol, a llai na 1% o'r atebwyr yn nodi eu bod wedi mynd ar ôl gwasanaethau cefnogaeth gyffuriau ac alcohol o'r blaen. Mewn cyferbyniad, nododd 60% o'r holl atebwyr fod problemau cyffuriau ac alcohol wedi effeithio arnyn nhw. Pan ofynnwyd iddynt am y bylchau presennol yn y gwasanaethau, nododd 30% o'r atebwyr fod y diffyg mwyaf yn y ddarpariaeth hostel. Nododd 23% angen am ganolfan ddydd a gynigiai weithgareddau i'r rhai nad oedd ganddynt nunlle i fynd. Dengys hyn mai blaenoriaeth gyntaf pobl ddigartref yw cael hyd i lety parhaol ac nid i chwilio am wasanaethau cefnogaeth eraill.

Nododd 19% o gyfweledigion wasanaethau 'eraill' y teimlent y byddant o les i'r gymuned ddigartref. Awgrym cyffredinol oedd darpariaeth gynyddol o wybodaeth am ddigartrefedd a'r cymorth sydd ar gael. Mynegodd llawer o bobl fod digartrefedd wedi'u synnu ac nad oedd ganddynt syniad at bwy i droi. Awgrymwyd cefnogaeth emosiynol, hefyd, yn arbennig help a chefnogaeth gan bobl oedd wedi bod yn ddigartref eu hunain, ac hyd yn oed, fel yr awgrymodd un ddynes, wasanaeth cyfeillio.

## Edrych Ymlaen

Daeth syniadau penodol iawn am eu gobeithion i'r dyfodol oddi wrth y cyfweledigion a roddodd ddisgrifiad manwl o'u profiadau. Roedd nifer o bobl eisïau rhoi gorau i gyffuriau neu alcohol (er gwaetha'r ffaith nad oeddynt eisïau help gyda'r problemau hyn). Roedd eraill eisïau ailsefydlu perthynas gyda'u rhai annwyl, yn enwedig gyda'r plant nad oedd bellach yn rhan o'u bywydau oherwydd digartrefedd a'r problemau yn gysylltiedig ag ef. Disgrifiodd nifer o bobl, yn enwedig y rhai ifainc, y gyrfaedd yr hoffent eu cael, o wneud dodrefn i ofalu am yr henoed. Yn uchel ar y rhestr i'r rhan fwyaf yw llety, ac eto, mae pobl yn disgrifio delfrydau penodol iawn :

Hoffai Denise gael ' bwthyn, llawer o anifeiliad, pwll, a thyfu gardd lysieuol.' Mae Denise yn 30 a newydd ddod allan o gyfnod yn y carchar pan orfodwyd hi i roi gorau i'w chartref a'i phlant. Mae hi wedi cael ei chartrefu'n anaddas sawl gwaith ac yn ddigartref pan oedd hi'n feichiog â'i thrydydd plentyn, merch fach a fu farw wedyn.

Dydy pawb ddim yn gallu dychmygu dyfodol sy ddim ynghlwm wrth ddigartrefedd; dywedodd un gwerthwr Big Issue wrth weithwyr ei bod hi'n anodd gweld dyfodol positif, ac yr oedd nifer o gyfweledigion yn ansicr wrth ateb cwestiynau am eu huchelgeisiau.

Mae Steve wedi bod yn ddigartref bob hyn a hyn am 20 mlynedd. Pob haf, mae'n teithio i Aberystwyth ar ei raglen 'detocs' ei hun -mae e'n dweud ei bod hi'n anodd cael hyd i gyffuriau yn yr ardal a bod y rhai sydd ar gael o ansawdd gwael. Yn ddiweddar mae Steve wedi colli tri o bobl agos ato, ac y mae nawr yn cysgu ar y traeth. Mae Steve yn credu mai'r unig ffordd allan o'i sefyllfa yw marwolaeth.

## Crynodeb

Y mae nifer uchel o bobl ddigartref y cysylltwyd â nhw, 134 mewn dim ond 12 wythnos, yn dangos bod digartrefedd yn broblem gyfredol yn yr ardaloedd gwledig hyn yng Nghymru, er gwaetha'r gamdybiaeth gyffredinol nad yw'n bod, neu nad yw'n broblem ddifrifol. Efallai bod digartrefedd yn llai gweladwy yn yr ardaloedd gwledig nag mewn trefi a dinasoedd prysur, ond mae'r problemau ym mhrofiad y bobl ddigartref yn aml iawn yr un fath.

## **Mae'r canlyniadau isod yn awgrymu bod nifer o'r ffactorau sy'n creu ac yn ffurfio digartrefedd yr un fath yn yr ardaloedd gwledig ag y maent yng nghanol dinasoedd ardaloedd trefol (1) ;**

- Y mae pobl iau (o dan 30) yn sefyll allan, ac y mae dynion yn fwy niferus na merched yn y grwp. Fodd bynnag, daeth bron i draean o'r straeon personol roddwyd i'r tîm ymchwil oddi wrth ferched, rhai â phlant.
- Cysgodd y mwyafrif (65%) y tu allan ar ryw adeg o'u digartrefedd.
- Yr achos mwyaf aml am ddigartrefedd a nodwyd yw chwâl yn y teulu neu berthynas yn torri lawr. Ceir adroddiadau am gamdrin mewn teuluoedd a thrais mewn partneriaethau. Teimlai pobl ifainc nad oedd ganddynt ddewis ond gadael cartref.
- Y mae nifer o adroddiadau yn dangos sut mae digartrefedd yn rhoi pobl ar risg ac yn cael effaith negyddol ar emosiynau pobl. Nodwyd camdrin geiriol, hiliol a thrais corfforol. Yr oedd nifer o bobl yn isel iawn eu hysbryd.
- Cysylltir problemau iechyd meddwl, camdrin cyffuriau ac alcohol a phrofiad digartrefedd, er bod gwasanaethau ar gyfer y problemau hyn yn arbennig o ddiffygiol yn yr ardaloedd gwledig.
- Yr oedd nifer o bobl mewn cysylltiad ag asiantaethau statudol a gwirfoddol. Yr oedd bodlonrwydd â'r gwasanaethau yn y sector wirfoddol yn arwyddocaol uwch.
- Yr oedd y mwyafrif eisiau tai/ fflatiau annibynnol. Yr oedd yn well ganddynt gefnogaeth gyfnewidiol na chefnogaeth breswyl. Yr oedd gan rai cynlluniau pendant at y dyfodol.

## **Fodd bynnag, yr oedd yna ganlyniadau a oedd yn benodol i ddigartrefedd yn yr ardaloedd gwledig, fel a ddangosir yn y canlyniadau isod :**

- Tra yr ystyrid adran wledig i fod yn fwy diogel na dinas a llai o demtasiwn rhag cyffuriau neu drosedd, gwelwyd bod diffyg gwasanaethau, hefyd, ar gyfer pobl ddigartref, yn enwedig canolfannau dydd a llety hosteli.

- Er bod 61% wedi symud i ardaloedd gwledig, roedd traean yn lleol, a deuparth eisiau aros mewn ardal wledig. Roedd hyn yn aml oherwydd y rhwydweithiau cefnogi presennol o ffrindiau a theulu yn yr ardal. Roedd y bobl y cysylltwyd â nhw wedi clystyrru yn nhrefi gwledig Aberystwyth a Llanelli.
- Mae'r stigma o gwmpas digartrefedd yn gallu gorfodi pobl i fod yn anhysbys ac ag awydd i fod yn anweledig, yn enwedig mewn cymunedau clos lle y gall teimladau o gywilydd ac embaras gryfhau.
- Roedd y patrwm amlwg o ddigartrefedd yn eithaf byr dymor ond yn adroddus.
- Roedd yna ddiffyg llety hostel ond mwy o ddefnydd o G.a B. Yn gyffredinol, doeddynt ddim yn hoffi llety G. a B. ac fe'i gwelwyd weithiau yn beryglus. Siaradodd ychydig, fodd bynnag, am safonau uwch a'r gefnogaeth roeddynt wedi'i chael gan landlordiaid lleol.
- Y mae darpariaeth digartrefedd presennol i'w gweld yn fyr dymor, 'datrysiad sydyn' sy ddim yn angenrheidiol yn mynd wrth wraidd trafferthion pobl. Cefnogaeth gyfnewidiol yw'r gwasanaeth sy'n well gan y bobl sy'n teimlo y byddai tenantiaeth sicr yn fwy real iddyn nhw.

## Argymhellion

Awgryma'r patrymau o ddigartrefedd a welwyd yn yr astudiaeth hon ac mewn rhai eraill fod digartrefedd, mewn llawer ffyrdd, yn effeithio'r rhai yn y siroedd gwledig fel y mae'n ei wneud yn yr ardaloedd trefol. Efallai bod y niferoedd yn llai, ond mae'r problemau yr un fath – cyffuriau, alcohol a thor berthynas yn y teulu. Gyda'r cynnydd yn y prisiau tai, ynghyd â chyflogedd gwael a diffyg cyfleoedd, yn enwedig i bobl ifainc, y mae digartrefedd yn sicr yn broblem a all ddwysau.

Bydd logisteg darparu unrhyw wasanaeth dros boblogaeth ddaearyddol mor wasgaredig wastad yn broblem. Byddai gwasanaeth Breakfast Run, fel a geir gan y RSIT / TYCA, yn fentr enfawr, a'r pellter teithio angenrheidiol yn unig yn broblem ddifrifol yn nhermau costau. Fodd bynnag, y mae'r cysgwyr allan hyn yn arbennig o glwyfadwy oherwydd eu lleoliad anghysbell, a dylid gwneud cysylltiad rheolaidd gyda'r grwp hwn os mai dim ond i sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch.

Ymddengys mai rhwystro a chefnogi parhaus yw'r gwasanaethau mwyaf priodol i'w cynnig yn yr ardaloedd hyn. Efallai y byddai ystod o ymyrraeth amrywiol, yn enwedig rhwng pobl ifainc a'u rhieni, yn rhwystro llawer rhag gadael cartref, neu o leiaf sicrhau eu bod yn symud i lety addas. Y mae pobl yn pryderu nad ydynt yn derbyn cymorth hir dymor, ac yn teimlo eu bod nhw'n mynd yn anghof unwaith maen nhw wedi derbyn Gwely a Brecwast neu le mewn hostel. Datrysiadau dros dro i ddigartrefedd yw'r rhain ac felly y dylid eu hystyried nhw. Gall cefnogaeth ailsefydlu i'r rhai yn y math yma o lety dros dro helpu sicrhau bod pobl yn symud ymlaen at gartref mwy parhaol.

Gall pobl yn eu tenantiaethau eu hunain, sydd ar risg o fod yn ddigartref am nifer o resymau, ( dyled, problemau iechyd meddwl, anawsterau perthynas) hefyd elwa'n fawr o gefnogaeth denantiaeth a gwasanaethau ymyrraeth argyfwng.

Y mae angen amlwg am wasanaethau alcohol a chyffuriau, gyda thipyn dros hanner yr atebwyr yn yr arolwg yn nodi un neu ddau o'r problemau hyn. Y mae eu diffyg cymhelliad ymddangosiadol i gael help yn croesddweud eu dymuniadau at y dyfodol i fod yn rhydd o sylweddau, gan awgrymu mai cael eu cartrefu oedd eu hangen cyntaf. Petai eu hanghenion tai yn cael eu taclo a gwasanaethau digonol ar gael, byddent yn fwy tebyg o ddechrau rhyw fath o driniaeth.

Tra roedd y rhan fwyaf o'r atebwyr wedi nodi mynediad digonol i gymorth meddygol, gallai achosion o drais, ynghyd â defnydd uchel o gyffuriau ac alcohol, ddangos angen am ryw fath o nyrs peripatetig, yn enwedig i grwpiau o gysgwyr allan sydd yn llai tebygol o gael gafael ar feddyg. Er bod nifer o bobl wedi cofrestru gyda meddyg, doeddynt heb gael cysylltiad rheolaidd oherwydd y pellter yr oedd rhaid iddynt ei deithio i'w gweld nhw, sy'n broblem yn arbennig i ardaloedd gwledig oherwydd eu natur ddaearyddol. Gallai hyn, hefyd, ddangos angen am ryw fath o wasanaeth symudol, yn enwedig i ddefnyddwyr cyffuriau ac alcohol a allai fod ag angen rhagnodau ailadrodd er mwyn taclo eu defnydd sylwedd.

Mae'n ymddangos bod rhaid wrth Gwely a Brecwast oherwydd y diffyg llety dros dro arall sy ar gael, a nes y bydd mwy o letya tai cynladwy neu lefydd hostel ar gael, dyma'r unig ddewis a fydd mewn llawer o achosion. Dylid edrych ar Gwely a Brecwast ymhob ffurf, ni ddylid edrych arno fel datrysiad hir dymor, a rhaid edrych ar safonau ac addasrwydd ystafelloedd a chyfleusterau, yn enwedig ar gyfer teuluoedd a phlant.

Y mae'r stigma o gwmpas y rhai digartref yn cyfrannu at natur guddiedig digartrefedd gwledig. Cafodd nifer o bobl eu hunain ar goll ac wedi'u hynysu, heb lawer o wybodaeth sut a lle i chwilio am gymorth. Eto, mae'n rhaid i'r gwasanaethau gael eu gweld, fel y mae'n rhaid cydnabod digartrefedd gwledig fel problem ddifrifol i ardaloedd gwledig. Bydd rhaid ymgynghori a defnyddwyr gwasanaethau, pobl sydd, ac wedi bod, yn ddigartref, er mwyn cyrraedd darpariaeth wasanaeth well ac ennyn ymateb positif ac adeiladol gan gymunedau lleol.

Dros y 30 mlynedd ddiwethaf mae asiantaethau sy'n gweithio yn ardaloedd trefol Cymru wedi sefydlu gwasanaethau llwyddiannus i gwrdd ag anghenion pobl ddigartref. Mae'r adroddiad hwn wedi gweld bod yr anghenion hyn hefyd yn bodoli yn ardaloedd gwledig Cymru ar raddfa sy'n mynnu y dylid copio'r ystod o wasanaethau trefol er mwyn taclo digartrefedd gwledig.

Ddylai'r anawsterau logistaidd o weithredu unrhyw wasanaeth ddim bod yn rhwystr rhag cynnig i holl bobl ddigartref yng Nghymru y gefnogaeth i gael gafael ar lety diogel, sicr, a sefydlog.

- Balchin, P. and Rhoden, M. (2002) *Housing Policy*, 4th edition, Routledge: London.
- Bevan, P. (1999) *Rough Sleeping in Wales*: Cardiff: The Welsh Assembly.
- Brown, P. (2001) 'Blueprint for rural renewal drawn up', *Guardian*, 23 Jan.
- Button, E. (1992) *Rural Housing for Youth: A report on the causes and responses to youth homelessness in rural areas*, London: Centrepint.
- Cloke, P., Milbourne, P. and Widdowfield, R. 2002 *Rural Homelessness*, Bristol: Policy Press
- Hutson, S, Pritchard, J. and MacNally, J. (2004) *The Housing Histories of People who have been Homeless*, Cardiff: Welsh Assembly
- Hutson, S. and Liddiard, M. (1994) *Youth Homelessness: The construction of a social issue*, London: Macmillan.
- Quilgars, D. *Young People and the Housing market*, York: University of York.
- Shucksmith, M. (2001) 'Exclusive countryside? Social exclusion and regeneration in rural Britain', paper presented to the conference of the Institute of British Geographers, Plymouth.
- Webb, S., (1994) *My Address is Not my Home: Hidden homelessness and the single woman*, Edinburgh: Shelter Scotland (362.10941)
- Welsh Assembly (2003) *Better Homes for Wales*, Cardiff: Welsh Assembly.

- (1) Cymharwyd canlyniadau'r arolwg hwn â'r arolygon Cymreig canlynol, a gwelwyd tebygrwydd nodedig mewn llawer o ardaloedd ; 1991 Young and homeless in Wales, adroddiad ar gyfer y Joseph Rowntree Foundation.
- 1993** Single person housing need survey, Neath Homelessness Forum, Neath Borough Council.
- 1994** Snapshot survey of single homelessness in Swansea, Swansea Borough Council, Swansea.
- 1995** Housing and support need for young people in Merthyr Tydfil, Merthyr Tydfil Borough Council.
- 1997** *Rough Sleeping and Homelessness and Rhondda Cynon Taff*, University of Glamorgan, Pontypridd.
- 2002** Project Report of the Wallich Clifford Community – Bridgend County Borough Council Breakfast Run 18 December to 18 March 2002.
- 2004** Project Report of the Wallich Clifford Community – Cardiff Nightshelter April 2004 – April 2005



## **Tîm Ymchwil**

Jonathan Milton-Plummer  
Denise Cole  
Amy Bishop  
Dee Murphy  
Dianne Johns

## **Ymgynghorydd Academaidd**

Professor Susan Hutson

## **Cydlynnydd, Dadansoddydd ac Awdur**

Heather Blythe

## **Dylunydd Graffeg**

Nick Fudge

**Hoffai Wallich Clifford Community ddiolch o galon i bawb a sicrhaodd lwyddiant y prosiect yma, yn enwedig y bobl ddigartref a rannodd eu straeon a'u profiadau gyda'n tîm ymchwil.**